Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Sut i gwyno i ni am wasanaethau cyhoeddus Cymru



ombwdsmon.cymru

Ni yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Gwnawn dri pheth. Rydym yn:

- ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- ysgogi gwelliant systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth am ddim i'w ddefnyddio.



**Mae'r daflen hon ynghylch sut i gwyno i ni am wasanaethau cyhoeddus Cymru.** Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud ar ein gwefan: **ombwdsmon.cymru.**

## Pa wasanaethau y gallwn edrych arnyn nhw

Gallwn ymchwilio i gwynion am y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus Cymru – er enghraifft, **gofal iechyd**, **gofal cymdeithasol** neu **dai cymdeithasol**. Gallwn hefyd ymchwilio i gwynion am **ofal cymdeithasol preifat** a **rhywfaint o ofal iechyd preifat.**

Rydym yn ymchwilio i gwynion bod pobl wedi cael eu trin yn annheg neu nad oedd sefydliad wedi dilyn y broses gywir. Mewn cwynion am ofal iechyd a gofal cymdeithasol, gallwn ymchwilio i weld a oedd penderfyniadau am ofal a thriniaeth yn gywir.

## Gallwn ymchwilio i'ch cwyn os

- ☐ rydych eisoes wedi cwyno i'r sefydliad, ond rydych yn anhapus â sut y gwnaeth ymateb.
- ☐ digwyddodd y mater rydych yn cwyno amdano lai na blwyddyn yn ôl, neu daethoch yn ymwybodol ohono lai na blwyddyn yn ôl (oni bai y gallwch roi rheswm da i ni pam na wnaethoch gwyno i ni yn gynt).
- ☐ mae arwyddion na wnaeth y sefydliad wneud pethau'n iawn a bod hynny wedi achosi anghyfiawnder a chaledi i chi, neu'r person rydych yn ei gynrychioli.
- ☐ nid ydych yn gallu cymryd camau cyfreithiol ynghylch y mater.

**Os ydym yn credu na wnaeth y sefydliad bethau yn y ffordd gywir,** gallwn geisio datrys y mater yn gynnar.

**Os ydym yn penderfynu ymchwilio,** byddwn yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon ac egluro beth fydd yn digwydd nesaf.

**Os byddwn yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'ch cwyn,** byddwn yn esbonio pam.

## Helpwch ni i'ch helpu chi

Pan fyddwch yn cwyno i ni, anfonwch yr holl wybodaeth berthnasol sydd gennych. Os gallwch, dylech gynnwys copi o ymateb y sefydliad i'ch cwyn.

Byddwch mor glir ag y gallwch, fel y gallwn ddeall eich tystiolaeth yn gyflym a'r hyn rydych am i'r sefydliad ei wneud i unioni pethau i chi.

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch cyn gwneud eich cwyn, cysylltwch â ni a gwnawn ein gorau i helpu.

## Sut i gysylltu â ni

cwblhewch ein
**ffurflen gwyno ar-lein**

ffoniwch ni:
**0300 790 0203**

ebostiwch ni:
**holwch@ombwdsmon.cymru**

anfonwch lythyr atom:
**1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ**

Am ein ffurflenni cwyno, ewch i'n gwefan:
**ombwdsmon.cymru**

Gallwn hefyd bostio copi atoch.

**Os hoffech ddarllen y daflen hon mewn fformat arall (er enghraifft Braille, print bras neu Hawdd ei Ddeall), rhowch wybod i ni.**